

Targedau / Targets	Sut rydych wedi gweithio ar hwn / How you have worked on this	Ceir enghraifft ar / An example can be found on
Defnyddia y templed cyflwyno aseiniad.	gweler canllawiau ar https://www.youtube.com/watch?v=qCr9vFmqHFU gan nodi dy dargedau o'r aseiniad blaenorol a sut rwyd ti wedi mynd i'r afael â'r rhain o fewn yr aseiniad hwn.	Targedau yn gael ei cynwys
Darllen yn fwy eang er mwyn cefnogi dy safbwyntiau gyda llenyddaieth yn gyson drwy dy waith.	Fwy o ddarllen ac ymchwil	Cyfeirnod
Cysylltu gyda Cymorth Dysgu UWTSD Intranet er mwyn derbyn cymorth gyda ysgrifennu'n academaidd a dy gyfeirnod.	Wedi darllen llyfr havard referencing	Cyfeirnod

Ymateb ysgrifenedig - Cynnig ar gyfer prosiect cymunedol ysgol

Yn yr aseiniad hwn byddaf yn trafod fy mhrosiect i gyflwyno'r gymuned i'n hysgolion lleol, a fydd yn cael ei wneud drwy ardal ysgol goedwig yr ysgolion. Defnyddio'r ardal hon unwaith yr wythnos gyda gwahanol grwpiau blwyddyn a gwahodd eu rhieni i gymdeithasu a rhyngweithio â'u plant a chymuned yr ysgol. Wrth ystyried BERA (2018) ni fydd enw'r ysgol yn cael ei ddatgelu, er mwyn diogelu ac anhysbysrwydd gan ddilyn y canllawiau. Darllenwyd yn adroddiad Estyn (2023) mae gan yr ysgol hon 229 o ddisgyblion ac ystod dda o weithgareddau allgyrsiol, sy'n hanfodol i'w datblygiad a'u lles, hefyd fod y staff yn ddefnyddio'r awyr agored yn greadigol ac yn cynnig gyfleoedd allgyrsiol a medrau celf myniannol. Felly mae'r ysgol barod yn defnyddio eu mannau awyr agored yn synhwyrol, a'r gobaith o ddatblygu ac atgyfnerthu dysgu awyr agored yn pellach ar ol darllen adroddiad Estyn hyn. Prif ffocws y prosiect hwn fydd hybu perthnasoedd rhwng rhieni ac ysgolion wrth ddefnyddio'r gweithgareddau awyr agored ac ysgol goedwig i wneud hynny, mae ysgolion coedwig yn gynhwysol ac yn hybu ymddiriedaeth a hunanhyder mewn plant (Llywodraeth Cymru, 2015). Bydd yr ysgol goedwig yn rhedeg o 3-11 oed lle bydd holl rieni'r dosbarth yn cael eu gwahodd lle gallant rhyngweithio a chymryd rhan mewn gweithgareddau y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Gan gymryd plant ag ADY i ystyriaeth hefyd, byddai cynllun ychwanegol o fewn y grwpiau blwyddyn i greu ardal lai a mwy addas ar gyfer synhwyrau. Gan ystyried

ADY bydd sesiynau yn y goedwig yn addas ar gyfer pob disgybl a ddim yn wahanol o ran y cynnwys, ond bydd y lle yn fwy distaw er mwyn i'r plant gallu mwynhau mwy, darllenwyd o Lywodraeth Cymru (2024) fwyafrif o blant ADY yn mynd i ysgol prif ffrwd os mae'n gywir iddyn nhw. Darllenwyd o Llywodraeth Cymru 'community focussed schools' (2022) mae gydweithio rhwng ysgolion, adref a'r gymuned mae gefnogi disgyblion yn yr ysgol a tu fas l'r ysgol yn fwy effeithiol.

Gan fod un o'r prif bwriadau y project fydd i greu perthynas well gyda rhieni'r ysgol darllenwyd fod y rhieni sydd a'r hyder i gefnogi dysgu eu plant yn cael effaith sylweddol ar gyfraniad y ddisgyblion, mae hyn yn persbectif gyffredinol fod gaddynt fwy o ddylanwad ar addysg plentyn hefyd (Department for Education and skills, 2003). Felly mae'n bwysig iawn cynnwys rhieni yn nysgu'r plant a thrwy wneud hyn yn yr awyr agored mae plant yn llai ymwybodol o'r elfen ddysgu ac yn cael mwy o ryddid, wedi'u cynnwys yn y sesiynau hyn bydd nifer o weithgareddau yn cynnwys sgiliau echddygol manwl a sgiliau echddygol bras. Gall adnabod fod cyfranogiad oedolion mewn chwarae plant yn bwysig pan bod rhain yn gynnwys cwestiynu agored, meddwl ar y cyd a meddylfryd parhaus (Llywodraeth Cymru, (t.6) 2015). Gellir datblygu'r berthynas hon rhwng rhieni ac ysgolion dros amser, gyda'r plant iau yn yr ysgol bydd yn sefyllfa newydd, ond wrth i'r plant dyfu'n hŷn ni all y berthynas ond tyfu gan ei bod yn bwysig cofio bod ysgolion eisiau cefnogi plant a'u rhieni i parhau â'u datblygiad. Datblygwyd yr ysgol goedwig gyntaf yn Sgandinafia ac mae bellach wedi'i chyflwyno yng Nghymru a Lloegr ac mae'n datblygu'n gyflym, mae ein hysgolion coedwig wedi'u cynllunio i fod yn fwy sylfaenol sy'n caniatáu i blant ddatblygu ar eu cyflymder eu hunain o wythnos i wythnos. (Sam Massey, 2023). Felly mae'r prosiect yn dal i fod yn gynnydd gweithredol ac mae'n gweithio ochr yn ochr â chwricwlwm cymru i'w gynnwys ar draws ysgolion, prosiect lle mae athrawon a chynorthwyrwyr addysgu yn cael y cyfle i ddatblygu eu gyrfaedd hefyd. Mae cydweithio tu allan o'r ystafell dosbarth yn cryfhau perthnasoedd athrawon a disgyblion, gan fod yn cyfleoedd newydd yn agored (Barford and Daughbjerg, 2018). Mae greu perthynas proffesiynol ac addas rhwng athrawon a disgyblion yn rhan hanfodol, trwy greu perthynas gref gall annog plant i ddod i'r ysgol, mae'n bwysig bod awyrgylch hapus cadarnhaol yn cael ei ganfod bob amser. Mae'r cod cynydd yn rhan hanfodol o strwythuro dysgu plant yn ysgolion mae wedi gynllunio er mwyn cydfynd gyda'r Fframwaith y Ciricwlwm i Gymru, mae dewis dulliau addas ar gyfer pob ddysgwyr yn hanfodol gan sicrhau fod gallu i addasu os oes angen ar gyfer yr unigolion dosbarth (Llywodraeth Cymru, 2021). Mae ddefnyddio ardal y goedwig yn gadael i blant cymryd risg fel ni fydd fel arfer, ddim yn wahanu'r dysgu o tu fewn i'r dosbarth a tu allan (NRW, 2015), bwysig i gadw'r ddysgu yn gyson lle bynnag mae'r sesiwn yn gael ei gynnal.

Fel darllenwyd yn y cyflwyniad nod y prosiect yma fydd i atgyfnerthu perthnasoedd rhwng rhieni ar ysgol gan ystyried y gôd drws agored yr ysgol. Mae'r cyswllt yma yn gyson trwy ddefnyddio app 'seesaw' sydd yn digwydd trwy'r flwyddyn a'r amser mae plant yn treilio yn yr ysgol. Bydd y prosiect hwn yn cael ei gyflwyno trwy ddefnyddio ysgolion coedwig, prynhawniau wythnosol neu dymhorol beth bynnag sy'n dod i fod yn fwy deniadol i rieni. Mae'r ysgol yn ddigon ffodus i gael arweinydd ysgol goedwig yn barod, sy'n golygu y dylai cyllidebu fod yn haws. Os bydd popeth yn llwyddiannus gyda sesiynau ysgol goedwig wythnosol gobeithio y gellir cymhwyso mwy o hyfforddiant trwy'r ysgol ar gyfer mwy o aelodau staff, y rhai a hoffai ddatblygu eu gyrfa.

Mae ysgolion coedwig yng Nghymru wir yn cynnig agwedd gyfannol at addysg, gan feithrin nid yn unig twf academiaidd ond hefyd sgiliau personol a chymdeithasol. Mewn addysg gynradd, mae'r dull hwn yn aml yn cynnwys integreiddio pynciau i ddangos cydgysylltiad dysgu, gwerthfawrogi gweithgareddau trwy brofiad ac ymarferol, hyrwyddo dysgu cymdeithasol ac emosiynol, ac annog creadigrwydd a meddwl beirniadol (llywodraeth cymru, 2010) Mae datblygiad cymdeithasol plant yn hanfodol, gall hefyd rhoi pwyslais ar MDPH Iechyd a Lles a fod mas yn yr awyr agored, gan ystyried un enghraifft o disgrifiadau dysgu bod "prosesu ein profiadau ac yn ymateb iddyn nhw yn effeithio ar ein hiechyd meddwl a'n lles emosiynol" (Llywodraeth Cymru, 2020), rhoi sylw i meddylfryd a ymwybyddiaeth ein teimladau.

Fe'i trefnir gyda'r gobaith y bydd aelod hyfforddedig oddi ar staff ar gael dri phrynhawn yr wythnos, gyda dau o'r rhain ar gyfer grŵp meithrinfa blwyddyn cyfnod sylfaen i flwyddyn dau yna'r ail sesiwn ar gyfer blwyddyn tri i flwyddyn 6 ar yr amserlen, digon teg ac ymlaen llaw i rieni allu ymgysylltu. Bydd y drydedd sesiwn wedyn yn sesiwn ar gyfer plant ADY penodol lle bydd cyfleoedd cyfartal i'r plant gyda llai o unigolion. Bydd pob dosbarth sydd allan ar y sesiwn benodol honno allan gydag arweinydd yr ysgol goedwig, athro dosbarth ac unrhyw staff cymorth angenrheidiol sydd yn yr ystafell ddosbarth, a fydd hefyd yn rhoi cyfle i rieni ymgysylltu ag athro dosbarth eu plentyn a gofyn unrhyw gwestiynau neu bryderon. efallai fod ganddyn nhw.

Cyfle i rieni ymlacio a siarad â'i gilydd a chreu perthynas gyda rhieni eraill i uno, a all hefyd ymgysylltu â grwpiau neu rieni i ymuno â 'PTA' yr ysgol a chreu perthynas bellach gyda'r ysgol. Mae'r PTA yn greu awyrgylch dda i chefnogi i ddysgwyr a teuluoedd, mae'r grwp o rhieni yna hefyd i rhannu gwybodaeth perthnasol a addas yn gyflym (Atkin V, 2022). Bydd yr ardal yn gwaelod yr iard yn y goed lle mae siglen weiren wib sy'n addas ar gyfer plant wedi'i chlymu i goed, siglenni coed, hambyrddau twff gyda gwahanol weithgareddau yn seiliedig ar thema'r ysgol/dosbarth, mae croeso i bob plentyn ddefnyddio fel y mynnant tra'n dangos parch. Bydd cynnau tân yn ystod pob sesiwn a bydd rhieni'n gallu eistedd o amgylch y tân gyda the, coffi a siocled poeth sydd ar gael i'w defnyddio trwy gydol eu hamser yn yr ysgol.

Byddai'r syniadau a ddefnyddir yn y sesiwn ysgol goedwig hefyd yn weithgareddau addas i rieni eu gwneud yn yr ardd waeth beth fo'r tywydd, felly mae'r sesiynau hyn hefyd yn gyfle i ddefnyddio adnoddau'r ysgol.

Nid yw'n angenrheidiol bod presenoldeb yn wythnosol, ond gyda'r gobaith y gellir ei wneud drwy gydol y flwyddyn bob tymor bydd holiadur byr yn cael ei anfon at rieni i gael adborth ar y sesiynau ysgol goedwig. Gallai'r holiaduron gynnwys cwestiynau fel "Pa mor effeithiol yw'r sesiynau ysgol goedwig?" , "Ydy eich perthynas gyda'r ysgol wedi gwella ers y sesiynau?" a hyd at dri arall. Bydd hyn yn rhoi arweiniad i'r ysgol ar unrhyw newidiadau sydd angen eu gwneud neu bethau y gellir eu cadw yr un fath y mae pobl yn eu mwynhau, mae cwestiynau manwl gywir yn hanfodol wrth ysgrifennu holiadur yn hytrach na bod yn agored i ddehongliad (Cox J, Keni Brayton Cox, 2008). I cydfynd gyda holiaduron bydd y gallu i ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol yr ysgol hefyd elfen o cadw cyswllt, mae cyfryngau cymdeithasol yn fwy perthnasol i ddefnyddio yn y cyfnod amser yma o fyw, mae llawer o bobl yn treulio lot fwy o amser ar eich ffonau symudol a felly ffordd syml o gadw cyswllt. Er fod nad yn angenrheidiol bod yn presenol bydd cofrestru yn gofynnol er fod yr ysgol yn gallu monitro pwy sydd yn troi i fyny, pwysig i ystyried hefyd y pobl sydd byth wedi dod i sesiwn gan ystyried y rhesymu. Bydd y gobaith fod pob rhiant/gwarcheidwad yn gallu mynychu o leiaf un sesiwn i ddangos cefnogaeth tuag at yr ysgol, nid yw'r ysgol yn gofyn am cyfraniad am y sesiynau yma dim on ymgysylltiad. Bydd llwyddiant y sesiynau yma yn gael ei mesur gan ymgysylltiad y rhieni a'r plant yn y project, gyda gobaith arall yn y pendraw bydd y 'PTA' yn ei gefnogi a gall greu cyllid trwy codi arian o fewn yr ysgol a thu allan i'r ysgol, gallwch ddatblygu ardal coedwig i fod yn addas i bawb. Mae hefyd cyfle wrth rhieni ymuno a'r PTA mae'n cyfle i gallu beirniadu yn parchus am amodau dysgu eich plentyn wrth cadw yn gyswllt (Atkin V, 2022). Atgyfnerthu perthnasoedd gan ddefnyddio yr awyr agored fel yr rhan pwysig o wneud, beth bynnag fydd y tywydd bydd sesiynau y goedwig dal yn mynd ymlaen i'r plant a'r rhieni.

Yn yr atodiad cyntaf fe welwch adolygiad SWOT o brosiect ysgol goedwig, a bydd y manteision a'r anfanteision mewnol ac allanol isod yn cael eu trafod. Gwelir yn **atodiad un** dadansoddiad SWOT o broiect yn y Goedwig, gan gychwyn gydag un o'r cryfderau sydd yn drafod magu hyder y plant sydd yn mynd i'r sesiynau yma. Yn y cwricwlwm i Gymru mae yna bwyslais yn y pedwar diben o greu cyfranwyr mentrus creadigol (Llywodraeth Cymru, 2022) ac felly gallwch atgyfnerthu hyn trwy gael y plant yn defnyddio'r pethau sydd mas yn yr awyr agored er mwyn gallu greu pethau newydd. Mae creu fframwaith sydd yn gynhwysol ac yn addas yn rhan hanfodol o addysg (impact Wales, 2022) felly mae mynd a'r plant mas

yn yr awyr agored yn cymryd mantais bod yn addas i bawb, cyfleodd i chwarae gyda phopeth sydd ar gael.

Cryfder arall sgiliau cymdeithasol mae'r plant am gael wrth weithio gyda'i gilydd er mwyn greu ac adeiladu pethau, gwelir yn atodiad dwy enghraifft o 'den' cafodd ei greu yn ysgol arall gan blant hun yr ysgol, gwnaeth y plant yna torri a mesur y pren addas er mwyn gallu adeiladu, felly wnaeth ddefnyddio sgiliau mathemateg ac iaith er mwyn cyfathrebu a threfnu beth oedd angen fel oedden am greu ac yn y blaen. Darllenwyd yn y cwricwlwm i Gymru Mathemateg a Rhifedd bod egwyddorion cynnydd yn gynnwys rhuglder a chymhwysedd strategol (Llywodraeth Cymru, 2022), felly mae cyfle i ddatblygu yn yr awyr agored.

Gan ystyried plant gydag anghenion ychwanegol galle'n buddio o sesiwn ychwanegol ar gyfer nhw er mwyn fod yn amgylchedd sydd yn cwrdd â phob plentyn. Mae hyn hefyd yn meddwl am deimladau fel rhiant, gan sicrhau fod y cyfle iddyn nhw fwynhau gyda phlant nhw heb orfod beco am gael ei wyllo gan riant arall, cafodd hyn ei ystyried ar ôl trafodaeth ar ôl profiad PONTIO, lle dwedodd rhiant:

"I feel less judgment from coming to ALN sessions, even though my child is in mainstream school it is highlighted with inclusivity for all children. This school has gone above and beyond with the smaller sessions for ALN to make my child more comfortable in the situation even though they all doing the same activities."

(Anhysbys, 2024)

Darllenwyd uchod a gwelid y llwyddiant o fewn ysgolion arall ac felly trwy greu ardal ddiogel gall plant a rhieni dod gyda'n gilydd i uno cymuned fewnol ac allanol. Trwy uno'r gymuned gallwn hefyd ceisio i'r awdurdod lleol fel pobl tan os galle'n dod mewn i drafod diogeli tan gyda'r plant, oherwydd yn ysgolion coedwig mae hawl cynnu tan gall y plant eistedd o gwmpas a chanu caneuon ayyb.

Hefyd gan gynnal sesiynau draw yn y goedwig cyfle i staff yn yr ysgol datblygu, er mwyn ennill cymhwysedd arweinydd ysgol goedwig mae yna hyfforddiant sydd yn gynnwys asesiadau effaith ecolegol ac asesiadau risg o safleoedd lle mae'r sesiynau yn cael ei gynnal (Natural Resources Wales (NRW), 2015). Mae'r staff yn yr ysgol gallu fod yn unrhyw un gan sicrhau fod digon o amser gyda nhw ac mae'r holl gyfrifoldeb gyda'r arweinydd i ddiogeli'r plant sydd yn mynd i'r sesiynau. Ar yr ochr arall o sicrhau bod amser gyda'r staff un o'r gwendidau a chododd yn ddadansoddiad SWOT yn atodiad un oedd amserlen brysur yr ysgol gan fod newidiadau yn gallu digwydd o fewn ysgolion mae'n bwysig ystyried os mae grwpiau penodol yn colli mas ar sesiynau bod cyfle arall iddyn nhw gael.

Mae posibilrwydd hefyd y bydd plant yn teimlo eu bod yn cael eu gadael allan oherwydd amserlenni prysur rieni/gwarcheidwaid, a allai arwain at broblemau i blant yn y dyfodol. Ni fyddai pob rhiant yn gallu gwneud pob sesiwn, ond ni fyddai hyn yn golygu y byddai'r plentyn

yn colli allan, byddent yn dal i gymryd rhan yn y sesiwn ysgol goedwig. Bydd y sesiwn ysgol goedwig yn gyfle i rieni gymdeithasu a chyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg, dod i adnabod ei gilydd a'u plant.

Mae yna hefyd ffactorau allanol sy'n dod i mewn i ysgolion coedwig, fel y trafodwyd uchod pobl yn dod i mewn o'r gymuned ac ati. Wrth feddwl am y peth o bersbectif ysgolion gallai cyllidebu ysgolion hefyd gael ei effeithio, yn amrywio o bris y cwrs i'r adnoddau sydd eu hangen i redeg y rhaglen. Mae Ysgol Goedwig yn seiliedig ar ddefnyddio adnoddau naturiol, cyfle i chwarae gemau fel cuddio a chelf coetir gan ddefnyddio'r hyn sydd yno. Darllenwyd o NAHT (2024) mae pwysau chwyddiant o £177m yn 2023-24 a £114m yn 2024-25, felly mae Llywodraeth Cymru yn cynnal grants i geisio cefnogi ysgolion drwy'r grant datblygu disgyblion ac felly yn rhoi cyfleoedd i'r ysgolion i ddatblygu. I dderbyn hyfforddiant i gael cymhwysedd lefel 3 mae'n costï £925 (inspired forest school training, 2023), felly yn dibynnu faint o aelodau fydd yn cymryd yr hyfforddiant ar effaith yn yr ysgol. Gwelir fwy o bwyntiau yn dadansoddiad SWOT isod am y project yn **atodiad un**.

I grynhoi gan ystyried amcanion dysgu y modiwl wrth darllen llawlyfr modiwl defnyddwyd sgiliau angenrheidiol gan gynnwys sgiliau amrywiol, paratoi darpar – athrawon er mwyn gallu cyfrannu i'r dyluniad cwricwlwm, defnyddwyd y sgiliau yma trwy cynllunio'r project. Mae'r project yma yn gael ei gynllunio er mwyn gallu addasu ar unrhyw adeg, gyda'r gobaith o bawb yn buddio o'r sesiynau gan gynnwys elfenau o bedwar diben. Mae un o'r pedwar diben yn gynnwys fod yn gyfranwyr mentrus, creadigol sydd paraotï plant a bobl ifanc i arwain a chwarae rol mewn timau effeithiol ac yn gyfrifol (llywodraeth Cymru, 2020), mae plant yn yr awyr agored gyda cyfle wahanol i weithio yn grwpiau anffurfiol tu allan o'r dosbarth. Gobeithir y bydd y prosiect cyfan yn cyflwyno effeithiau cadarnhaol ar draws yr ysgol dros gyfnod hir o amser gan gadw'r ymgysylltiad rhwng rhieni a'r ysgol, tra'n diwallu anghenion rhieni pan fo'n bosibl. Wrth gofio ac ystyried y problemau cyllidebu y mae ysgolion yn eu hwynebu ar hyn o bryd wrth i ysgolion coedwig a dysgu awyr agored barhau i ddatblygu, y gobaith yw y bydd hyrwyddo dysgu awyr agored yn ennill mwy o grantiau o fewn cyrraedd ysgolion. O ran fy natblygiad dysgu a gyrfa fy hun yn mynd i'r afael â safonau SAC, un enghraifft o safon yw arwain, projectau a phâr trwy gyflwyno hyn i ysgolion a gallu slotio i mewn i gylchredeg ysgolion yn effeithiol. Byddai arwain y prosiect hwn yn effeithiol yn arwain at lwyddiant y prosiect a datblygiad plant a chyflwyno'r gymuned i ysgolion ar wahanol raddfeydd. Mae hyn hefyd yn cysylltu â'r ymchwil yr wyf wedi'i wneud ar ysgolion coedwig ac ymchwil y gall awdurdodau lleol gymryd rhan yn y prosiect hwn, megis dynion tân, yr heddlu ac eraill. Mae'r prosiect yn cynnwys ystod o fanteision ac anfanteision, gan amlygu pwysigrwydd cadw'r gymuned o fewn cyrraedd i ysgolion, tra'n creu gymuned yr

ysgol ei hun ochr yn ochr. Darllenwyd o Llywodraeth Cymru fel rhan o'r 'community focused schools' (2022) fod y prif focws yn adeiladu perthnasoedd teuluoedd, anghenion y gymuned a'r gallu i gweithio'n effeithiol wrth ymyl gwasanaethau eraill, felly cyfle i'r blant gael ei ddylanwadu gan yr holl bobl pwysig sydd o gwmpas nhw.

Cyfeirnod

Atkin, V. (2022). *What Are The Benefits of a Parent Teacher Association?* [online] www.sharesy.com. Available at: <https://www.sharesy.com/blog/what-are-the-benefits-of-a-parent-teacher-association#:~:text=The%20PTA%20plans%20events%20and> [Accessed 15 May 2024].

Barfod, K.S. and Daugbjerg, P. (2018). Potentials in Udeskole: Inquiry-Based Teaching Outside the Classroom. *Frontiers in Education*, 3. doi:<https://doi.org/10.3389/feduc.2018.00034>.

British Educational Research Association (BERA) (2018). *Ethical Guidelines for Educational Research, Fourth Edition (2018)*. [online] BERA. Available at: <https://www.bera.ac.uk/publication/ethical-guidelines-for-educational-research-2018-online>.

Cox, J. and Keni Brayton Cox (2008). *Your Opinion, Please!* Corwin Press, p.9.

Department for Education and skills (2003). *UK Government Web Archive*. [online] webarchive.nationalarchives.gov.uk. Available at: <https://webarchive.nationalarchives.gov.uk/ukgwa/20110506160922/https://www.education.gov.uk/publications/eOrderingDownload/RR433.pdf>.

Estyn (2023). *A report on Catwg Primary School Main Road Cadoxton Neath SA10 8BL* Date of inspection: October 2023 by Estyn, His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales. [online] Available at: https://cdnfiles.j2bloggy.com/32434_b/wp-content/uploads/2023/12/Inspection-report-Catwg-Primary-School-2023.pdf [Accessed 15 May 2024].

Inspired Forest School Training (2023). *Forest School training Level 3*. [online] Inspired Forest School Training. Available at: <https://www.inspiredforestschoolltraining.co.uk/forest-school-training/level-3-leader-training/#:~:text=The%20cost%20of%20the%20Level>.

Llywodraeth Cymru (2021). *Y Cwricwlwm i Gymru - Y Cod Cynnydd*. [online] Available at: <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-11/cwricwlwm-i-gymru-y-cod-cynnydd.pdf>.

Llywodraeth Cymru (2022a). *Community Focused Schools [HTML]*. [online] GOV.WALES. Available at: <https://www.gov.wales/community-focused-schools-html>.

Llywodraeth Cymru (2022). *Mathemateg a Rhifedd: Egwyddorion cynnydd - Hwb*. [online] hwb.gov.wales. Available at: <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/mathemateg-a-rhifedd/egwyddorion-cynnydd/>.

Llywodraeth Cymru (2023). *Teaching and learning in the outdoors: the current state of outdoor learning in schools in Wales*. [online] Available at: <https://hwb.gov.wales/api/storage/177a33a6-7c70-4843-bb63-903e70a04154/teaching-and-learning-in-the-outdoors-the-current-state-of-outdoor-learning-in-schools-in-wales.pdf>.

Llywodraeth Cymru (2024). *Moving to the Additional Learning Needs (ALN) system: parents guide [HTML] | GOV.WALES*. [online] GOV.WALES. Available at: <https://www.gov.wales/moving-additional-learning-needs-aln-system-parents-guide-html>.

Massey, S. (2023). *The Benefits of a Forest School Experience for Children in their Early Years*. [online] Available at: https://www.forestschoolortraining.co.uk/_webedit/uploaded-files/All%20Files/Research%20papers/Massey%20-%20benefits%20of%20FS%20Journal.pdf.

Welsh Government (2015). *A guide to Forest School in Wales*. [online] Available at: <https://cdn.cyfoethnaturiol.cymru/media/696065/guide-to-forest-school-booklet-eng-final.pdf>

Welsh Government (2020). *Pedwar diben y cwricwlwm i Gymru The four purposes of the curriculum for Wales*. [online] Available at: <https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2018-03/the-four-purposes-of-the-curriculum-for-wales.pdf>.

Atodiad 1

Dadansoddiad SWOT - Yn y Goedwig

	HELPGAR	NIWEIDIOL
MEWNOL	Cryfderau • Hunain hyder i blant – dysgu trwy chwarae • Datblygu elfen meddwl creadigol y plant, greu pethau mas o'r pethau sydd o'u cwmpas nhw. • Arbenigedd newydd i staff – rhedeg gan rhywun sydd gyda cymhwyster lefel 3 a chymorth cyntaf • Sgiliau cymdeithasol – i blant gweithio gyda gilydd ac yn gallu gofyn am help os oes angen • Sesiynnau ychwanegol yn gallu gael ei gynnal ar gyfer plant ALN os mae sesiwn llawn yn anaddas.	Gwendidau • Angen sicrhau bod staff yn yr ysgol sydd ar gael i neud y sesiynnau – colli sesiynnau yn y ystafell dosbarth os mae athrawes dosbarth yn wneud y cwrs • Plant ddim eisiau cymryd rhan • Un flwyddyn yn colli mas ar wythnosau penodol achos pethau arall sydd yn digwydd yn yr ysgol yr un pryd
ALLANOL (tu allan i'r ysgol)	Cyfleoedd • Rhieni yn dod mewn ac yn gweithio ar perthynas nhw gyda plant nhw • Cyfle i weld nhw gweithio gyda plant eraill • Pobl o'r gymuned yn dod mewn o'r orsaf tan – esbonio rheolau tan, cadw'r plant yn ddiogel.	Bygythiad • Cyllid yn yr ysgol - costus ar gyfer y gwrs • Sawl aelod o staff sydd angen – fwy o arian o cyllid yr ysgol? • Prynnu pethau mas o'r cyllid yr ysgol ddim yn gallu wneud yr arain nol • Amrwymiadau gwaith rhieni, plant yn colli mas

Atodiad 2

Plant yn adeiladu 'den'

